



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Maniffesto

ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021

Rhagair

Gosodwyd targed uchelgeisiol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 gan Lywodraeth 2016-21, a gwaith y Llywodraeth nesaf fydd gweithredu'n radical er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed.

Gan fod consensws gwleidyddol a chefnogaeth drawsbleidiol i ffyniant y Gymraeg, bydd angen i bob plaid sy'n ymgiprys am seddi yn y Senedd ym mis Mai 2021 gyflwyno ymrwymadau polisi fydd yn arwain at greu mwy o siaradwyr a chynyddu defnydd o'r iaith.

Efallai bod 2050 yn teimlo'n bell i ffwrdd, ond os na fabwysiadir meddylfryd beiddgar gan Lywodraeth 2021-26 mewn meysydd allweddol fel addysg, sgiliau a'r economi, mae'n annhebygol y gwireddir y nod. Un o'r prif heriau y bydd angen mynd i'r afael ag o yn y pum mlynedd nesaf yw rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer pontio rhwng y byd addysg a'r gweithle, gan sicrhau bod ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cynhyrchu gweithlu sydd â sgiliau i weithio dwy gyfrwng y Gymraeg.

Law yn llaw â gweledigaeth polisi uchelgeisiol, mae'n rhaid buddsoddi'r cyllid a'r adnoddau angenrheidiol er mwyn cwrdd â'r amcanion hyn. Golyga hyn gynyddu'n sylweddol y gyllideb a'r adnoddau sydd ar gael i'r Gymraeg, gan gynnwys i Gomisiynydd y Gymraeg a'n partneriaid sy'n hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.

Rwy'n cyhoeddi'r argymhellion ynghanol argyfwng COVID-19, heb fodd o wybod eto pa heriau cymdeithasol ac economaidd ddaw yn ei sgil. Profodd yr wythnosau diwethaf beth ellir ei gyflawni o fabwysiadu meddylfryd beiddgar ac arloesol; ac wrth edrych ymlaen tuag at sefydlu'r norm newydd, gofynnaf i chi roi'r meddylfryd hwn ar waith wrth ystyried sut i ddiogelu dyfodol yr iaith Gymraeg. Ni ddylai COVID-19 fod yn rheswm dros droi cefn ar y weledigaeth; ac wrth i'r pleidiau baratoi eu maniffestos, erfyniaf arnynt i ystyried y Gymraeg fel mater llorweddol, ac integreiddio gweledigaeth ac amcanion Strategaeth 2050 i bob ymrwymiad maniffesto a wneir ganddynt.

Yn y ddogfen hon, rwy'n cyflwyno argymhellion ar gyfer ymrwymadau polisi fydd yn arwain at greu'r hinsawdd i gyrraedd y miliwn a dyblu'r ganran sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol.

Aled Roberts.

Rhan 1: Sicrhau statws y Gymraeg


Roedd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn garreg filltir bwysig yn hanes y Gymraeg - am y tro cyntaf, cadarnhawyd statws swyddogol yr iaith a sefydlwyd hawliau i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Yn ei adroddiad 'Cefnogi a hybu'r Gymraeg' (Gorffennaf 2019), cydnabu Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Senedd y sicrwydd y mae'r Mesur yn ei roi i'r cyhoedd ac i sefydliadau, a chasglodd nad oedd tystiolaeth gadarn o'r angen am ddeddfwriaeth newydd ar y pryd. Bydd yn hollbwysig i'r Llywodraeth nesaf ymrwmo i roi sefydlogrwydd i'r strwythurau a'r hawliau sydd eisoes mewn lle, ac ymroi i gysoni, cynnal neu wella profiadau siaradwyr Cymraeg o fewn y fframwaith ddeddfwriaethol a'r grymoedd rheoleiddio presennol.

Creu a diogelu hawliau siaradwyr Cymraeg

Mae tystiolaeth glir bod safonau'r Gymraeg wedi arwain at wella profiadau pobl wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mae'r safonau hefyd wedi arwain at greu sefyllfa lle mae gan weithwyr ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn eu gwaith, lle cymerir perchnogaeth ar lefel sirol dros hybu'r defnydd o'r Gymraeg a lle mae dyletswydd i ystyried yr iaith mewn penderfyniadau polisi.

Er mwyn sicrhau bod y momentwm yn cael ei gynnal ac er mwyn sicrhau cysondeb ar draws sefydliadau, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth yn ailafael yn y broses o osod safonau ar y cyfle cyntaf gan ddod â nifer cynyddol o sefydliadau o dan y gyfundrefn honno. Er bod 122 o sefydliadau bellach yn gweithredu safonau, mae nifer o sectorau yn parhau i aros i gael eu cynnwys mewn rheoliadau cyn y bo modd inni symud i'r cam nesaf o osod safonau arnynt. Maent yn cynnwys cymdeithasau tai, sefydliadau anweinidogol Llywodraeth y DU fel Cyllid a Thollau ac ACAS, cyflenwyr nwy a thrydan, gwasanaethau rheilffyrdd a chwmnïoedd bysiau, a rhai sefydliadau sy'n derbyn dros £400k o arian cyhoeddus.

Argymhelliad 1: Cyflwyno rheoliadau fydd yn galluogi'r Comisiynydd i osod safonau ar yr holl sefydliadau sydd eisoes wedi bod drwy broses ymchwiliad safonau, a hefyd



edrych ymhellach ar atodlenni'r Mesur i archwilio sectorau pellach y gellid cyflwyno safonau iddynt.

Argymhelliad 2: Cymryd pob cyfle i ddod ag endidau newydd dan y gyfundrefn safonau ac wrth i sefydliadau neu bartneriaethau newydd gael eu sefydlu.

Buddsoddi yn seilwaith yr iaith

Mae angen buddsoddi'n strategol yn sylfeini isadeiledd yr iaith er mwyn gwneud yn siŵr ei bod yn cael ei diogelu ac yn gallu addasu i gwrdd ag anghenion yr oes ddigidol.

Argymhelliad 3: Sicrhau y bydd technoleg llais wedi'i ddatblygu'n llawn ar gyfer y Gymraeg erbyn diwedd tymor y Senedd.

Argymhelliad 4: Rhoi grym statudol i'r defnydd o enwau lleoedd safonol mewn cyd-destunau swyddogol ac archwilio dulliau o warchod enwau hanesyddol Cymru.

Rhan 2: Creu siaradwyr Cymraeg

Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn cydnabod mai'r system addysg a hyfforddiant yw'r prif ddull o greu siaradwyr Cymraeg ac o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr. Mae'n gosod targed ar gyfer cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n gadael addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg i 70% (25,000) erbyn 2050. Mae hefyd yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cynyddu niferoedd yr athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc neu'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector cynradd ac uwchradd.

Er bod rhai datblygiadau clodwiw wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid ydynt wedi bod yn ddigonol, ac ychydig iawn o gynnydd a welwyd mewn gwirionedd. Er mwyn sicrhau cynnydd, rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno newidiadau strategol o ddifrif er mwyn sicrhau bod y system addysg yn creu siaradwyr Cymraeg rhugl. Rhaid hefyd wrth fuddsoddiad sylweddol i wella sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg presennol ac un y dyfodol.

Gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar

Mae cyflwyno'r iaith i blant o oedran cynnar yn arbennig o bwysig er mwyn creu siaradwyr sydd am ddefnyddio'r iaith yn gyson gydol eu bywydau. Er hynny, mae peth ffordd i fynd i sicrhau bod darpariaeth gofal plant yn diwallu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, heb sôn am greu mwy o alw. Bydd angen i'r Llywodraeth nesaf greu system ofal plant a blynyddoedd cynnar lle mae creu siaradwyr Cymraeg a pharatoi at addysg Gymraeg yn rhan ganolog ohono.

Argymhelliad 5: Cefnogi lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd i gynnig darpariaeth yn Gymraeg; a chyflwyno cymhellion i leoliadau gofal plant sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg neu elfen arwyddocaol ddwyieithog.

Argymhelliad 6: I hwyluso argymhelliad 5, datblygu strategaeth benodol ac uchelgeisiol ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu gofal plant ac addysg

blynyddoedd cynnar sy'n adeiladu ar y cynllun Camau presennol, a chyllid i wireddu'r strategaeth.

Addysg statudol

Er bod y Llywodraeth wedi gosod gweledigaeth a thargedau uchelgeisiol ar gyfer addysg yn Cymraeg 2050, mae angen ymrwymïadau cyfatebol o ran cyllid, strategaeth a pholisi. Rhaid i'r cynlluniau ar gyfer cynyddu'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg fod yn feiddgar a radical er mwyn gwyrddio tueddiadau'r 10 mlynedd diwethaf a'r prinder cynyddol yn y sector. Mae sicrhau digon o athrawon sy'n gallu addysgu yn Gymraeg yn hanfodol ar gyfer galluogi twf addysg cyfrwng Cymraeg, a hefyd er mwyn gwireddu amcanion y cwricwlwm newydd ar draws ysgolion Cymru.

Argymhelliad 7: Datblygu strategaeth i sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant addysg gychwynol athrawon yn datblygu sgiliau Cymraeg holl ddarpar athrawon. Yn ogystal â gwella a chynnal sgiliau'r rhai sydd eisoes yn siarad Cymraeg, mae angen i gyrsiau hyfforddi athrawon wella sgiliau a chynyddu hyder y rhai sydd â rhywfaint o Gymraeg, a darparu sgiliau sylfaenol i'r rhai sydd â braidd dim gallu ar gychwyn y broses hyfforddi.


Argymhelliad 8: Creu rhaglen gyllido benodol ar gyfer gwireddu amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Argymhelliad 9: Adolygu a diwygio rheoliadau a chanllawiau teithio er mwyn hwyluso mynediad at ofal plant, addysg statudol, ac addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, gan sicrhau tegwch i ddysgwyr a theuluoedd sy'n dymuno derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.

Argymhelliad 10: Rhoi arweiniad a chyllid ar gyfer symud ysgolion ar hyd y continwmm ieithyddol, gan sicrhau cynnydd yng nghyfran y cwricwlwm a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Addysg a sgiliau ôl-16

Mae perygl bod disgyblion sy'n dysgu Cymraeg ac yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol yn colli gafael ar yr iaith ar ôl gadael. Yn aml, daw hyn



oherwydd diffyg cyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn addysg bellach ac uwch, ac wrth ddilyn rhaglenni prentisiaethau. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol bellach yn gyfrifol am ehangu cyfleoedd i astudio yn y Gymraeg yn y sector addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith gan adeiladu ar ei waith yn y sector addysg uwch. Mae angen parhau i gynnal y buddsoddiad presennol yn y sector addysg uwch wrth i'r gwaith yn y sectorau eraill fynd rhagddo.

Argymhelliad 11: Ymrwymiad polisi i gefnogi ac ariannu 'Cynllun gweithredu addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg' y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn llawn.

Argymhelliad 12: Gan adeiladu ar gynlluniau presennol Cymraeg Gwaith, datblygu rhaglen gynhwysfawr hir dymor i wella sgiliau ieithyddol y gweithlu addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith fel y bo canran sylweddol mewn meysydd blaenoriaeth yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai'r rhaglen gynnwys dulliau addysgu dwyieithog ac fe ddylai alluogi rhyddhau staff am gyfnodau estynedig i feistrolï'r Gymraeg yn ogystal â recriwtio rhagor o staff sy'n siarad Cymraeg i'r sector.

Cymraeg i oedolion

Gan nad yw'r sector addysg statudol ar hyn o bryd yn cynhyrchu digon o siaradwyr Cymraeg mae dibyniaeth sylweddol ar ddysgu'r Gymraeg i oedolion er mwyn nid yn unig gyrraedd targedau strategaeth 2050 ond hefyd i alluogi sefydliadau i weithredu gofynion safonau'r Gymraeg a deddfwriaeth arall. Mae angen parhau i gynnal elfennau prif ffrwd Cymraeg i Oedolion yn y gymuned law yn llaw ag ehangu cynlluniau yn y gweithle.

Argymhelliad 13: Ymrwymiad i ehangu prosiect Cymraeg Gwaith gyda phwyslais ar dargedau rhuglder a chynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd.

Rhan 3: Cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg

Targed hollbwysig arall yn Cymraeg 2050 yw dyblu'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd. Er mwyn gochel rhag creu sefyllfa lle cynhyrchir miliwn o bobl sy'n medru'r Gymraeg ond prin neb yn ei defnyddio, rhaid gweithredu i gefnogi ffyniant y Gymraeg fel iaith gwaith a iaith ddiodyn derbyn gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r safonau'n creu dyletswydd ar sefydliadau cyhoeddus i gasglu gwybodaeth am allu ieithyddol eu gweithlu. Bydd angen i'r Llywodraeth hwyluso dull cyffredin o gasglu'r data yma yn y man cyntaf. Prin iawn yw'r sefydliadau yng Nghymru sy'n gweinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac er mwyn cynyddu defnydd o'r iaith a normaleiddio'r defnydd hwnnw, mae angen i ragor o sefydliadau symud i'r cyfeiriad hwn gan gynnwys endidau a grëir drwy gydweithio cynyddol rhwng elfennau o sector cyhoeddus Cymru.

Cydweithio a gweinyddu mewnol

Wrth gynllunio cydweithio ffurfiol rhwng sefydliadau cyhoeddus dylid ystyried dyletswyddau'r sefydliadau hynny dan safonau'r Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod a'i hyrwyddo o dan unrhyw drefniadau newydd. Dylid hefyd gymryd camau rhagweithiol i sicrhau nad yw'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu llesteirio wrth i'r sector cyhoeddus symud tuag at sefyllfa o gydweithio cynyddol.

Argymhelliad 14: Sicrhau bod yr ymrwymadau cryfaf o safbwynt gweinyddu yn Gymraeg yn cael eu mabwysiadu wrth i ddyletswyddau statudol ar gyfrif cyhoeddus i gydweithio gael eu datblygu.

Iechyd a gofal

Bellach mae sawl fersiwn o fframwaith Mwy na Geiriau wedi bodoli i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes iechyd a gofal. Mae safonau'r Gymraeg yn eu lle ond eto nid oes sicrwydd y bydd pobl yn gallu derbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg. Mae angen llawer mwy o weithredu a chyllid i sicrhau bod hynny yn digwydd gyda phwyslais ar ddatblygu'r gweithlu.

Argymhelliad 15: Sefydlu strategaeth dysgu Cymraeg i'r sector iechyd a gofal a fydd yn sicrhau bod pob ymarferwr yn gadael hyfforddiant iechyd a gofal a ariennir gan arian cyhoeddus gyda sgiliau iaith Gymraeg priodol ac ymwybyddiaeth iaith. Law yn llaw â hyn, buddsoddi'n sylweddol i wella sgiliau pob gweithiwr iechyd a phob gweithiwr gofal gan adeiladu ar brosiectau presennol Cymraeg Gwaith.

Argymhelliad 16: Cynnal adolygiad o'r graddau y mae dealltwriaeth o'r cynnig rhagweithiol; gallu pobl i dderbyn gwasanaethau Cymraeg a'r angen clinigol i wneud hynny wedi treiddio ac yn weithredol ymysg gweithwyr sy'n rhan o ofal sectorau a flaenoriaethir gan gynnwys plant a phobl ifanc, pobl hŷn a phobl â phroblemau iechyd meddwl.

Argymhelliad 17: Ymrwymiad y bydd y dyletswyddau gofal sylfaenol yn cael eu cryfhau trwy reoliadau cyn diwedd tymor y Senedd er mwyn rhoi dyletswyddau pellach ar y sector.

Rhan 4: Tai a gwaith

Golyga'r cynnydd mewn mudoledd a'r datblygiadau yn y ffordd mae pobl yn cysylltu â'i gilydd bod y syniad o gymunedau'n esblygu'n barhaus. Ac mae hyn yn arwain at heriau a chyfleoedd o safbwynt cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Ar y naill law, mae ystod o ffactorau economaidd fel cyfleodd cyflogaeth a'r farchnad dai yn debygol o ddylanwadu ar gynladwyedd cymunedau lle ceir dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Yn benodol, ceir pryderon y gall y ffactorau hyn sbarduno allfudo o'r cymunedau Cymraeg, yn enwedig gan bobl ifanc. Ar y llaw arall, gall y Gymraeg fod o fudd i'r economi hefyd, er enghraifft fel arf marchnata neu sgil gwerthfawr yn y gweithle.

Mae cydnabyddiaeth gyffredinol ar draws y sbectrwm gwleidyddol o bwysigrwydd y cysylltiad rhwng yr iaith a'r economi. Fodd bynnag, nid yw datganiadau polisi lefel uchel yn y maes hwn wedi arwain at gamau gweithredu ymarferol yn hanesyddol, a dyna fydd yr her i Lywodraeth 2021-26.

Cynllunio

Sefydlodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sail statudol i'r angen i ystyried y Gymraeg yn y gyfundrefn gynllunio, a hynny am y tro cyntaf; ac roedd hynny'n gam arwyddocaol ymlaen. Wrth adolygu'r gweithdrefnau, serch hynny, gwelsom fod diffyg cysondeb ym mholisiau awdurdodau cynllunio Cymru yng nghyd-destun y Gymraeg. Arweinia hyn at ddiffyg sicrwydd bod effaith posibl datblygiadau ar y Gymraeg yn cael ei asesu mewn modd dibynadwy, ac nad oes camau addas yn cael eu cymryd i leddfu unrhyw effeithiau niweidiol neu i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Argymhelliad 18: Rhoi arweiniad clir a manwl i'r Arolygiaeth Gynllunio ac i awdurdodau lleol ar sut i asesu effaith ar y Gymraeg a sut dylai polisïau cynllunio hybu defnydd o'r Gymraeg.

Argymhelliad 19: Rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ar sut gallant reoli faint o dai sy'n cael eu cofrestru'n ail gartrefi neu'n fusnesau.

Gwaith

Wrth inni adael yr Undeb Ewropeaidd a rhoi'r fframweithiau buddsoddi rhanbarthol newydd ar waith, bydd angen i'r Llywodraeth nesaf fod yn greadigol wrth sicrhau fod economi a chymunedau Cymru'n ffynnu. Mae'n gwbl allweddol nad yw'r newidiadau'n arwain at ddirywiad yn sefyllfa economaidd siaradwyr y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith, a bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel ffactor all gynorthwyo twf busnes a datblygiad economaidd.

Argymhelliad 20: Cynnwys disgwyliad i fusnesau sy'n ceisio cymorth ariannol y Llywodraeth i adnabod sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac ymrwmo i ddefnyddio a datblygu'r sgiliau hynny.

Argymhelliad 21: Cysylltu amcanion strategaethau datblygu economaidd â *Cymraeg 2050* drwy greu'r cyfleoedd i gefnogi busnesau newydd i sefydlu mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.

Argymhelliad 22: Creu swyddi sector cyhoeddus o ansawdd mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg drwy gefnogi lleoliadau gwaith a / neu amodau gweithio hyblyg i'r ardaloedd hynny.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

0345 6033 221

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

[@ComyGymraeg](https://www.instagram.com/ComyGymraeg)

comisiynyddygyymraeg.cymru